Cyngor Cymuned Ganllwyd

Medi 14eg 2022

**Presennol**

Cyng. S.Roberts,S.P.Jones,D.Morris,C.Edwards.Gavin Jones,C.Dixon,G.Hughes a Delyth Griffiths.

**Ymddiheuriad** -Dim

**Cofnodion Gorffennaf 2022.**

Cynnigodd D.Morris fod y cofnodion yn gywir a eiliwyd gan Cyng S.Roberts.

**Datgan diddordeb mewn unrhyw fater a drafodir yn ystod y cyfarfod.**

Dim.

**Materion yn codi.**

Giat Green Lane- Adroddodd Cyng Edwards fod y gwaith trin y giat sydd wedi malu heb ei gwblhau. Clerc i gysylltu a swyddogion CNC a'r Parc i drafod y sefyllfa.

Arwyddion baw ci ardal Ty Cerrig, Ganllwyd—Derbyniodd Carys Edwards arwyddion baw ci a.y.b i'w gosod yn ardal Ty Cerrig.

Bont droed Dolgoed- mae gwaith cynnal a chadw'r bont wedi gwblhau.

Ffordd Cefndeuddwr- Adroddodd Cyng Morris fod y cyngor wedi cwblhau rhywfaint o waith yn y lleoliad ond mae angen gwaith ychwanegol i glirio draeni a.y.b

Clerc i gysylltu a Cyngor Gwynedd

**Cynghorydd Sir.**

Derbyniodd y cyngor adroddiad ar waith a cynnwys cyfarfodydd diweddara Cyngor Gwynedd;

Mae adran tai Cyngor Gwynedd wedi prynu ty yn ardal Nefyn er mwyn i bobl lleol cael byw ynddo.

Y gobeithion yw fod mwy o dai am cael eu prynu trwy Gwynedd er mwyn cartrefu pobl lleol.

Tai teg—mae Cyngor Gwynedd wedi llunio polisi a fydd yn rhoi cymorth ariannol i bobl sydd wedi byw yn lleol ers 5 mlynedd i gael benthyciad morgais. Bydd y cyngor yn cyd weithio gyda cwmniau a banciau i gyflawni'r cais am forgais.

Mae talebau i gael bwyd o'r banc bwyd Bermo ar gael i bobl Dolgellau a'r cylch trwy swyddfa y Cynghorwyr Sir.

Mynychodd Cyng Griffiths gyfarfod a oedd yn trafod prosiectau niwclear sifil newydd yn gorsaf niwclear Trawsfynydd. Megis dechrau mae'r prosiectau a bydd y cynghorydd yn rhoi mwy o wybodaeth i'r cyngor wrth i ddatblygiadau ddigwydd.

Darpariaeth cymorth cartref i henoed ardal Dolgellau;

Ers y 9fed o fis Mefi mae cwmni "Sea Shells" wedi derbyn cytundeb gan Cyngor Gwynedd i ddarparu cymorth cartref i'r henoed ardal Dolgellau (cynnwys Ganllwyd)

Honodd Cyngor Gwynedd y byddai'n costio £2.9m y flwyddyn iddynt ddarparu'r gwasanaeth hwn. Nid yw gwerth y contract a roddwyd i Seashells yn hysbys.

Mae nifer o bryderon wedi cael eu codi gan gynghorwyr a staff cyngor Gwynedd ynglyn a dyfarnu'r cytundeb hwn.

Ymysg y brif pryderon ydi cywirdeb y ffigyrau ariannol a ddefnyddiwyd i ddyfarnu'r cytundeb, diffyg ymgynghori a'r y pendefyniad i ddewis ardal Dolgellau fel yr ardal gyntaf i gael darpariaeth gofal heb fod gan y cyngor.

Bydd y cyngor plwyf yn monitro'r gwasanaeth newydd.

Ardal Ni 2035.

Bydd Cyng Dixon a Griffiths yn mynychu cyfarfod ar ran Cyngor Ganllwyd yn Coleg Meirion Dwyfor,Dolgellau 22/9/22 yn ymwneud ar pwnc yma.

Llwybrau cyhoeddus ardal Ganllwyd.

Ar ol derbyn nifer o sylwadau a cwynion am gyflwr llwybrau cyhoeddus yr ardal mae'r cyngor am wahodd cynrychiolwyr o'r CNC a Cyngor Gwynedd i gyfarfod mis Tachwedd i drafod y mater.

**Materion ariannol.**

Cadarnhad fod y cyngor wedi adnewyddu polisi insiwriant gyda cwmni Zurich.

Derbyniwyd rodd o £500 gan Matt Ward.

Cyson Banc: Gorffennaf 2022

| | |
|---|---|
| Yn y Banc ar ddechrau'r Mis: | £4475.08 |
| Derbyniwyd: | |
| Dim | |
| | |
| Taliadau: | |
| Cyflog/Paye | £100.00 |
| Treuliau banc | £8.00 |
| Ppapur printer a.y.b | £5.48 |
| | |
| Yn y banc diwedd mis | £4361.60 |

Cyson Banc: Awst 2022

| | |
|---|---|
| Yn y Banc ar ddechrau'r Mis: | £4361.60 |
| | |
| Derbyniwyd: | |
| Dim | |
| | |
| Taliadau: | |
| Cyflog/Paye | £100.00 |

| | |
|---|---|
| Treuliau banc | £11.00 |
| Ysiwriant | £447.02 |
| Cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus | £1080.00 |
| | |
| Yn y Banc diwedd mis | £2723.58 |

Mae aelodau'r cyngor wedi archwilio manylion y gwariant misol a chytuno bod y gwariant wedi'i gynnal yn unol â chynlluniau'r gyllideb. Nid oedd y gwariant yn torri asesiad risg arianol y cyngor.

Mae taliad am yr awdit mewnol gan Cyngor Gwynedd yn ddyledus.

Mae aelodau'r cyngor yn cytuno i dalu'r cyngor.

Banc HSBC- mae'r cyngor wedi derbyn llythyr gan y Banc yn dymuno ymgynghoriad ar y ffon i drafod materion diogelu cyfrif y cyngor.

**Llythyrau & E.bost.**

Mae'r cyngor wedi derbyn gwahoddiad i Gyfarfod Blynyddol y Parc Cenedlaethol yng Nghoed y Brenin Hydref 25ain/27ain.

Bydd Cyng Hughes a Evans yn mynychu'r cyfarfod.

Gwahoddodd CNC sylwadau am waith reoli coedwigaeth a wneir gan y sefydliaeth.Mae'r e-bost sy'n cynnwys yr holl fanylion wedi'i anfon ymlaen i'r cynghorwyr.

**Unrhyw fater arall.**

Codwyd y materion canlynol i ymwneud a phriffyrdd lleol;

Mae golygfa modurwyr yn gadael y gilfan ar y ffordd A470 gyferbyn a chyffordd Ty'n y Groes yn cael ei rwystro gan laswellt sydd wedi gordyfu.

Mae golygfa modurwyr yn gadael y gilfan ar y ffordd A470 yn Maesgwm yn cael ei rwystro gan goed sydd wedi gordyfu.

Mae ochr y ffordd ar gyfer y blwch post yn Doladd,Hermon wedi gwisgo i ffwrdd yn gwneud y lleoliad yn beryg I gerddwyr a beicwyr.

Bydd y clerc yn cysylltu a adran priffyrdd Cyngor Gwynedd.

Clerc i gysylltu ar adran yr amgylcheddol ynglyn y sbwriel a biniau sydd wedi eu gadael yn ymyl Neuadd y Pentref, Ganllwyd.